# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut y defnyddir yr wybodaeth a gasglwn amdanoch a'ch hawliau yng nghyswllt yr wybodaeth honno.

Mae gofyniad cyfreithiol am yr wybodaeth bersonol a gesglir gennych er mwyn cofrestru digwyddiad. Y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu casglu gwybodaeth cofrestru yw Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, Deddf Priodasau 1949 a Deddf Partneriaethau Sifil 2004. Gall y deddfau hyn, a darnau eraill o ddeddfwriaeth, osod gofyniad cyfreithiol arnoch i ddarparu darnau neilltuol o wybodaeth. Os ydych yn methu darparu'r wybodaeth mae'n ofynnol arnoch ei rhoi i ni gallwch, ymysg pethau eraill, fod yn atebol am ddirwy, neu gallem fethu darparu'r gwasanaeth yr ydych yn gwneud cais amdano, megis priodas neu bartneriaeth sifil.

Gellir hefyd gasglu gwybodaeth bersonol gennych os ydych yn gwneud cais i'r swyddfa hon, er enghraifft ar gyfer tystysgrif neu i gywiro gwybodaeth a gynhwysir mewn cofnod cofrestr.

Caiff yr wybodaeth a roddwch ei dal a'i phrosesu gan swyddogion cofrestru ar gyfer yr ardal gofrestru yma.

Mae'r Cofrestrydd Goruchwylio yn rheolydd data ar gyfer Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau. Gellir cysylltu â'r Cofrestrydd yn